Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

# Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi (STIEF) y Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

9–19 Mawrth 2026



# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Crynodeb o’r prif ganfyddiadau ........ 5

Adran 1 Arweinyddiaeth ........ 7

Adran 2 Diogelwch ........ 8

Adran 3 Gofal ........ 15

Adran 4 Gweithgarwch pwrpasol ........ 24

Adran 5 Ailsefydlu ........ 29

Adran 6 Gwybodaeth am STIEF y Parc ........ 33

Adran 7 Cynnydd o ran yr argymhellion o’r arolygiad diwethaf ........ 35

Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a’n hadroddiadau 38

Atodiad II Adroddiad Estyn ar weithgareddau addysg, sgiliau a gwaith ........ 41

Atodiad III Geirfa ........ 47

# Cyflwyniad

Roedd STIEF y Parc wedi parhau i sicrhau canlyniadau da i blant ar draws pob un o'r pedwar prawf carchar iach. Roedd arweinwyr a staff wedi cynnal amgylchedd tawel, pwrpasol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a gellid dadlau mai'r Parc yw'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc gorau yng Nghymru a Lloegr.

Roedd arweinyddiaeth yn y Parc yn gryfder. Er bod y boblogaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedwar mis blaenorol, roedd y cyfarwyddwr a'i uwch dîm wedi llwyddo i gynnal safonau uchel. Roeddent yn weladwy ar yr adeiniau ac wedi ymrwymo i sbarduno diwylliant cydweithredol a chadarnhaol i ddiwallu anghenion plant. Roedd morâl y staff yn uchel a throsiant yn isel, ac roedd y rhan fwyaf o'r staff rheng flaen yn brofiadol ac yn hyderus o ran rheoli ymddygiad. Roedd y sefydlogrwydd hwn, ochr yn ochr â disgwyliadau clir, wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer y canlyniadau da a welsom.

Roedd trefniadau da ar gyfer y plant a oedd yn cyrraedd y ddalfa, ac roedd y rhan fwyaf o blant yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf. Roedd y systemau diogelu yn gadarn ac yn ddealladwy i staff, roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn brydlon, ac roedd gwaith aml-asiantaeth effeithiol yn sicrhau bod pryderon yn cael eu rheoli'n briodol. Er bod lefelau hunan-niweidio wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf, roedd hyn yn bennaf oherwydd ymddygiad un plentyn ac roedd hynny wedi gostwng dros y misoedd diwethaf. Roedd y gofal o ddydd i ddydd i blant agored i niwed yn ymatebol; roedd y prosesau rheoli risg yn effeithiol, ac roedd goruchwyliaeth gref o ran y defnydd o rym.

Roedd perthnasoedd rhwng y staff a'r plant yn dda iawn. Roedd systemau rheoli ymddygiad yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn deg, gyda phwyslais clir ar annog ymddygiad cadarnhaol. Roedd yr amodau byw yn dda, ac roedd y celloedd yn lân ac wedi cael eu hadnewyddu ers yr arolygiad blaenorol. Roedd gan blant fynediad at amrywiaeth o gyfleusterau ac roeddent yn gallu cynnal cyswllt â'r teulu drwy ymweliadau, galwadau fideo diogel, a thechnoleg yn y celloedd.

Ar y cyfan, roedd gweithgarwch pwrpasol yn gryfder. Roedd plant yn treulio ychydig dros saith awr ar gyfartaledd allan o'u celloedd yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, roedd y cyfartaledd hwn yn cuddio rhai profiadau unigol gwahanol iawn, gyda phlant ar y drefn blatinwm yn treulio dros 11 awr y dydd heb fod dan glo, tra bod plant wedi'u gwahanu yn cael llai na dwy awr. Roedd y cyfleoedd cyfoethogi'n amrywiol iawn ac yn ymatebol i ddiddordebau'r plant. Roedd y ddarpariaeth addysg, a arolygwyd ar y cyd ag Estyn, yn dda ar y cyfan. Roedd yr athrawon a'r plant yn cyd-dynnu'n dda, ac roedd partneriaethau â darparwyr wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Roedd cynlluniau darllen ac addysg gorfforol hefyd yn cefnogi datblygiad personol y plant.

Roedd y canlyniadau ar gyfer ailsefydlu eto'n dda. Roedd y gwaith achos yn effeithiol ar y cyfan ac roedd y gwaith o gynllunio dulliau ailintegreiddio yn gwella. Roedd staff gwasanaethau iechyd yn gweithio'n dosturiol â phlant, ac roedd mynediad at ofal sylfaenol, gwasanaethau deintyddol a chymorth iechyd meddwl yn dda, er bod angen mynd i'r afael â gwendidau o ran llywodraethu a

chadw cofnodion i sicrhau bod y gwasanaethau’n ddiogel ac yn effeithiol yn gyson.

Yn y Parc, roedd y plant yn cael eu trin â gofal ac urddas, roeddent yn teimlo’n ddiogel, ac roeddent yn cael eu cefnogi i ymgysylltu’n gadarnhaol â’r drefn. Dylid llongyfarch yr arweinwyr a'r staff am yr hyn maent yn ei gyflawni, ac nid oes amheuaeth ei fod yn enghraifft i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EF
Ebrill 2026

# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

## Canlyniadau i garcharorion


Rydym yn asesu canlyniadau i garcharorion yn erbyn pedwar prawf carchar iach: diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol, a pharatoi ar gyfer rhyddhau (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y carchar (gweler Adran 1).

Yn yr arolygiad hwn o STIEF y Parc, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:

- yn dda ar gyfer diogelwch
- yn dda ar gyfer parch
- yn dda ar gyfer gweithgarwch pwrpasol
- yn dda o ran paratoi ar gyfer rhyddhau.

Y tro diwethaf i ni arolygu STIEF y Parc oedd yn 2023. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae canlyniadau i garcharorion wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

**Ffigur 1: Canlyniadau carchar iach STIEF y Parc yn 2023 a 2026**




## Yr hyn y mae angen ei wella

Yn ystod yr arolygiad hwn nodwyd pedwar pryder allweddol, a dylid trin pob un ohonynt fel blaenoriaethau. Pryderon â blaenoriaeth yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

**Pryderon â blaenoriaeth**

1. **Cafodd y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd i blant ei danseilio gan lefelau cyfyngedig o adrodd am ddigwyddiadau, trefniadau cadw cofnodion anghyson, a phroses drosglwyddo nad oedd yn ddigon cadarn.**

2. **Nid oedd y cynnig galwedigaethol yn y cwricwlwm yn ddigon eang.**

3. **Nid oedd datblygiad proffesiynol mewn addysg yn canolbwyntio'n gyson ar ddatblygu dulliau addysgu hyfforddwyr ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu penodol.**

4. **Nid oedd trefniadau monitro amddiffyn y cyhoedd yn ddigon cadarn**. Nid oedd y staff sy'n gyfrifol am fonitro wedi cael hyfforddiant ar adnabod materion diogelu sy'n benodol i blant.

## Arferion cadarnhaol nodedig

Canfu'r arolygwyr rywfaint o enghreifftiau o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn, y gallai carchardai eraill ddysgu ohonynt neu eu hefelychu. Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel:

> Tystiolaeth bod ein disgwyliadau'n cael eu bodloni i sicrhau canlyniadau arbennig o dda i garcharorion, a/neu ddulliau arbennig o wreiddiol neu greadigol o ddatrys problemau.

Oni nodir yn wahanol, nid yw'r enghreifftiau hyn yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol, maent yn giplun o adeg benodol ac efallai na fyddant yn addas ar gyfer sefydliadau eraill. Maent yn dangos rhai o'r ffyrdd y gellid bodloni ein disgwyliadau, ond nid dyma'r unig ffordd o bell ffordd.

- Roedd cynlluniau gwobrwyo ar gyfer ymgysylltiad ac ymddygiad cadarnhaol yn yr unedau preswyl ac addysg yn effeithiol o ran ysgogi plant. (Gweler Rheoli ymddygiad, a Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith)

- Roedd y plant wedi cael eu hatgyfeirio'n brydlon at orthodontydd cymunedol i gael gofal a thriniaeth barhaus. (Gweler Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg)

- Gweithiodd arweinwyr yn effeithiol gyda staff gweithredol i ddatblygu strategaeth ddarllen a oedd yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu diddordeb mewn darllen yn ogystal â lefel eu sgiliau. (Gweler Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith)

- Parhaodd gweithwyr achos y tîm anghenion, ymgysylltu a lles i roi cefnogaeth drwy gynnal cyswllt gofal drwy'r broses â rhai plant ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. (Gweler Cynllunio ailintegreiddio)

# Adran 1 Arweinyddiaeth

**Mae arweinwyr yn darparu'r cyfarwyddyd, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i blant yn y ddalfa.**

1.1 Roedd y sefydliad troseddwyr ifanc yn cael ei arwain yn dda. Roedd arweinwyr wedi sefydlu diwylliant ac ethos cadarnhaol, lle'r oedd staff o bob disgyblaeth yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau da i blant. Roedd gweledigaeth glir ar gyfer yr uned blant ac roedd gan arweinwyr ddigon o ymreolaeth o'r sefydliad i oedolion i ganolbwyntio ar anghenion y boblogaeth.

1.2 Yn ein harolwg staff, dywedodd 74% o'r rhai a oedd wedi ymateb fod eu morâl yn uchel neu'n uchel iawn, a bod 100% o'r arweinwyr yn gosod safonau uchel ar gyfer y staff yn aml neu bob amser. O ganlyniad, roedd trosiant staff yn isel ac roedd y rhan fwyaf o'r staff rheng flaen yn brofiadol, yn hyderus ac yn effeithiol o ran rheoli ymddygiad gwael.

| **Data a ddarparwyd gan y carchar adeg yr arolygiad** | |
|---|---|
| Canran y swyddogion carchar gyda llai na 2 flynedd o brofiad | **5.8%** |

1.3 Roedd pennaeth yr uned a'i huwch dîm yn cael eu gweld yn rheolaidd ar yr adeiniau ac yn yr adran addysg. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod cyfnodau symud ac amser bwyd pan oedd y plant allan o'u celloedd.

1.4 Yn ystod y pedwar mis blaenorol, roedd y boblogaeth wedi cynyddu'n sylweddol. Rhaid canmol y ffaith bod safonau uchel wedi cael eu cynnal hyd yn oed yng nghyd-destun poblogaeth gynyddol.

1.5 Roedd yr uwch dîm wedi mynd i'r afael â nifer o'r pryderon a godwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Yn benodol, roedd gwell trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng y Sefydliad Troseddwyr Ifanc a darparwyr addysg a gofal iechyd wedi arwain at gwricwlwm addysg gwell a mwy o fynediad at wasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

1.6 Roedd yr arweinwyr wedi gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â nodi staff yr uned sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y plant sydd angen y gwasanaeth hwn.

# Adran 2 Diogelwch

**Mae plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw yn y ddalfa'n ddiogel.**

## Dyddiau cynnar yn y carchar

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant sy'n trosglwyddo i'r ddalfa, ac oddi yno, yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae plant sy'n cyrraedd y ddalfa yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae eu hanghenion unigol yn cael eu nodi a'u diwallu, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar eu noson gyntaf. Mae'r gweithdrefnau sefydlu'n gynhwysfawr.

2.1 Roedd yr uned wedi derbyn 73 o blant yn y flwyddyn flaenorol, ond roedd nifer y newydd-ddyfodiaid yn amrywio'n sylweddol o fis i fis. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y rhai sy'n cyrraedd yn hwyr ers yr arolygiad blaenorol.

2.2 Roedd plant yn cael eu cadw ar wahân i garcharorion sy'n oedolion ac yn cael eu casglu o'r man derbyn yn fuan ar ôl cyrraedd gan staff y Sefydliad Troseddwyr Ifanc; wedyn roeddent yn cael eu harwain i'r uned lle'r oedd y rhan fwyaf o'r broses noson gyntaf yn y ddalfa yn cael ei chynnal yn gyflym mewn ystafell breifat.



**Man derbyn**

2.3 Roedd y celloedd ar gyfer y newydd-ddyfodiaid yn lân ac wedi'u paratoi'n dda. Yn ein harolwg, dywedodd 81% o blant eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf.

2.4 Cynhaliwyd sesiwn sefydlu yn ystod y tri diwrnod cyntaf yn ystod yr wythnos ar ôl i'r plentyn gyrraedd ac fe'i goruchwyliwyd gan swyddog penodol. Yn ein harolwg ac yn ystod yr arolygiad, dywedodd y rhan fwyaf o'r plant fod y sesiwn sefydlu wedi rhoi sylw i bopeth yr oedd angen iddynt ei wybod am fywyd yn yr uned.

## Diogelu plant

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn hyrwyddo lles plant, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac yn eu diogelu rhag pob math o niwed ac esgeulustod.

2.5 Roedd y trefniadau diogelu yn dda, gyda staff yn deall eu rhwymedigaethau, gan gynnwys pryd a sut i gyfeirio materion sy'n peri pryder at y tîm diogelu.

2.6 Gweithredwyd yn gyflym ar atgyfeiriadau a phryderon, ac roedd rheolwyr yn cael cefnogaeth dda gan weithwyr cymdeithasol ar y safle wrth ystyried sut i fwrw ymlaen. Roedd cysylltiadau rhagorol â'r ganolfan ddiogelu amlasiantaeth leol a swyddog dynodedig yr awdurdod lleol, a chyfathrebu da â chyrff diogelu perthnasol eraill.

2.7 Roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfod diogelu wythnosol ac roedd yn fforwm effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd atgyfeiriadau.

## Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae plant sydd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Mae pob aelod staff yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, yn effro iddynt, yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn gallu cael gafael ar offer a chefnogaeth briodol.

2.8 Roedd 58 o achosion o hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn gynnydd o 150% ers adeg yr arolygiad blaenorol, ond gellid priodoli llawer o hyn i weithredoedd un plentyn yn ystod yr hydref 2025. Roedd gostyngiad yn lefelau hunan-niweidio yn ystod y pedwar mis diwethaf, ac roedd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn rhai lefel isel.

2.9 Roedd yr ymatebion o ddydd i ddydd i anghenion unigolion yn dda, ac yn ein harolwg dywedodd llawer mwy o ymatebwyr nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill (89% o'i gymharu â 34%) fod cloch eu cell fel arfer yn cael ei hateb o fewn pum munud.

2.10 Roedd gwybodaeth am ddigwyddiadau'n cael ei rhannu'n dda, ac roedd yr ymatebion yn amlddisgyblaethol.

2.11 Dros y flwyddyn ddiwethaf roedd 59 o ddogfennau rheoli achosion asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) wedi cael eu hagor i gefnogi plant sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio. Roedd ansawdd gwaith achos ACCT yn dda a chafodd y plant dan sylw gefnogaeth briodol. Dywedodd y rhai a oedd wedi cael eu cynorthwyo drwy'r broses hon eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da.

## Diogelwch

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn cael eu cadw'n ddiogel drwy roi sylw i faterion corfforol a gweithdrefnol, gan gynnwys gwybodaeth diogelwch effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a phlant.

2.12 Roedd gwybodaeth diogelwch yn cael ei rheoli'n dda. Ymatebodd dadansoddwr penodol i'r rhan fwyaf o wybodaeth yn gyflym ac nid oedd ôl-groniadau.

2.13 Roedd cyfarfodydd wythnosol a misol yn nodi risgiau sy'n benodol i'r uned plant yn gynnar, ac yn llunio camau gweithredu y cytunwyd arnynt i liniaru'r rhain. Roedd perthynas dda â'r heddlu yn gwella'r prosesau hyn ymhellach.

2.14 Roedd arweinwyr yn cydnabod mai arfau byrfyfyr a chyffuriau oedd y bygythiadau mwyaf sylweddol i sefydlogrwydd ac roeddent wedi cymryd amrywiaeth o gamau i gyfyngu ar fynediad. Roedd y ffenestri wedi cael eu newid i leihau gallu plant i basio neu dderbyn eitemau anghyfreithlon, ac roedd llythyrau a pharseli'n cael eu chwilio'n effeithiol.

2.15 Ers yr arolygiad diwethaf, roedd trefniadau chwilio celloedd yn rheolaidd wedi cynyddu 869%, ac roedd hynny wedi arwain at gynnal 1,008 o chwiliadau celloedd dros y 12 mis diwethaf. At hynny, cwblhawyd yr holl chwiliadau celloedd ar sail gwybodaeth y gofynnwyd amdanynt yn brydlon. Roedd hyn wedi arwain at gynnydd o ran nifer y pethau a oedd yn cael eu darganfod.

2.16 Roedd profion cyffuriau gorfodol yn cael eu cyflwyno'n dda. Dros y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd 44 o brofion, gan arwain at bum canlyniad positif, i gyd ar gyfer canabis, gan arwain at gyfradd bositif o 11.36%. Roedd y rhai a gafodd brawf positif yn cael eu cyfeirio at un o ymarferwyr ymyrryd cynnar Dyfodol (gweler Geirfa).

2.17 Yn ystod y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd 9 diosg-chwiliad ar blant. Er bod y rhain wedi cael eu hawdurdodi, nid oeddem yn argyhoeddedig bod pob opsiwn arall wedi cael ei ystyried cyn troi at y mesur hwn.

## Rheoli ymddygiad

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn byw mewn amgylchedd diogel, ysgogol sy'n cael ei drefnu'n dda, lle mae eu hymddygiad da yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg a chyson.

2.18 Roedd y dulliau rheoli ymddygiad yn effeithiol a gwelsom staff o bob disgyblaeth yn annog plant a oedd yn ymgysylltu â'r drefn.

| **Arolwg o garcharorion Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi** | **Ydw** | **O'i gymharu â charchardai tebyg** |
|---|---|---|
| Ydych chi'n meddwl bod y system o wobrwyon neu gymhellion yn deg? | **58%** | Uwch |

2.19 Gwelsom fod staff yn gyson wrth ddefnyddio'r cynllun gwobrwyo a sancsiynau. Parhaodd arweinwyr i adolygu a gwella effaith y cynllun ac roeddent wedi gwneud nifer o newidiadau yn ddiweddar mewn ymateb i adborth gan blant.

2.20 Gwelsom swyddogion carchar yn gweithredu'n effeithiol o ran mynd i'r afael ag ymddygiad negyddol drwy herio anffurfiol, rhybuddion a lleihau statws plant ar y cynllun gwobrwyo. Pe bai ymddygiad y plentyn yn gwella neu pe bai'n cymryd rhan mewn gweithgaredd i wneud iawn am ei ymddygiad (er enghraifft, glanhau graffiti), gallai swyddog carchar leihau'r gosb wedyn.

2.21 Cynhaliwyd adolygiadau wythnosol ar gyfer pob plentyn ar lefel isaf y cynllun ac ar golli cysylltiad yn dilyn dyfarniad. Roedd nifer dda yn bresennol yn yr adolygiadau ac yn darparu amcanion i alluogi'r plentyn i symud ymlaen drwy lefelau'r drefn.

2.22 Yn ogystal, cyflwynwyd cynllun gwobrwyo o'r enw 'Pwyntiau'r Parc' gan y staff addysg i annog a gwella presenoldeb a chyfranogiad yn ystod y gweithgareddau addysg. Ers lansio'r cynllun ym mis Ionawr 2026, roedd y canlyniadau cadarnhaol yn cynnwys mwy o ddefnydd o'r llyfrgell a mwy o blant yn bresennol mewn dosbarthiadau.

2.23 Nod y tîm cymorth uwch amlddisgyblaethol oedd trefnu ymyriadau cefnogol i alluogi plant ag anghenion lluosog, a oedd yn aml yn arwain at ymddygiad negyddol parhaus a gwahanu mynych, i ail-ymgysylltu â'r drefn ddyddiol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd y tîm hwn wedi cefnogi wyth o blant yn llwyddiannus.

2.24 Roedd 531 o ddyfarniadau yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y rhan fwyaf ohonynt ar gyfer ymosodiadau a pheryglu iechyd a diogelwch (llifogydd neu ddringo ar gyfarpar a oedd wedi amharu ar y drefn

ddyddiol). Cynhaliwyd gwrandawiadau'n brydlon, gydag ymchwiliadau trylwyr a chefnogaeth briodol drwy gydol y broses.

2.25 Roedd trefniadau cydweithio â'r heddlu lleol yn effeithiol, gyda 45 o ddigwyddiadau wedi'u cyfeirio at yr heddlu yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Lleihau bwlio a thrais

Canlyniadau disgwyliedig: Mae pawb yn teimlo'n ddiogel rhag cael eu bwlio a'u herlid. Mae staff, plant ac ymwelwyr yn gwybod am systemau gweithredol a theg i atal ac ymateb i fwlio.

2.26 Roedd lefelau trais dros y 12 mis blaenorol yn debyg i'r rhai yn yr un cyfnod cyn yr arolygiad diwethaf, ond yn is nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Cofnodwyd 87 o ymosodiadau yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda chwech ohonynt angen cael eu hasesu neu eu trin yn yr ysbyty.

2.27 Dangosodd yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o achosion trais ac roeddent wedi gwella'r ymatebion i drais difrifol, gan gynnwys datblygu cymorth i ddioddefwyr a defnyddio cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (gweler Geirfa) i reoli'r risgiau a nodwyd.

2.28 Dros y 12 mis diwethaf, cafwyd 87 o atgyfeiriadau datrys anghydfod, ac roedd 52 ohonynt wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol. Roedd 'chwarae tawel', lle'r oedd y plant a oedd yn gwrthdaro â'i gilydd yn mynychu gweithgareddau hamdden dan oruchwyliaeth staff, yn cael ei ddefnyddio'n dda. Roedd y plant yn canmol y cyfleoedd a ddarperir i ddatrys y gwrthdaro presennol mewn amgylchedd diogel dan oruchwyliaeth.

## Defnyddio grym

Canlyniadau disgwyliedig: Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y defnyddir grym, ac os caiff ei ddefnyddio, bydd yn cael ei wneud mewn modd cyfreithlon gan staff sydd wedi'u hyfforddi. Mae'r defnydd o rym yn cael ei leihau drwy strategaethau ataliol a dulliau amgen sy'n cael eu monitro drwy drefniadau llywodraethu cadarn.

2.29 Roedd cyfanswm o 237 o achosion o ddefnyddio grym wedi cael eu cofnodi yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn debyg i'r nifer adeg yr arolygiad diwethaf.

2.30 Yn y lluniau camera ar y corff a welsom, roedd y defnydd o rym wedi cael ei gyfiawnhau a'i dawelu'n brydlon, gydag enghreifftiau da o gyfarwyddyd clir a thawel gan y swyddogion cyfrifol.

2.31 Roedd y broses o oruchwylio'r defnydd o rym yn effeithiol. Adolygodd yr arweinydd lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol yr holl luniau o ddigwyddiadau o fewn 24 awr er mwyn nodi'r pryderon uniongyrchol.

Roedd y pwyllgor defnyddio grym yn darparu haen ychwanegol o graffu, gan adolygu pob digwyddiad yn wythnosol, ac ymchwiliwyd yn drylwyr i bob digwyddiad hefyd mewn cyfarfod rhyngadrannol misol o'r grŵp monitro ac adolygu (MARG). Roedd yr oruchwyliaeth gadarn hon yn sicrhau bod unrhyw bryderon a oedd yn deillio o'r digwyddiadau hyn yn cael sylw prydlon.

2.32 Roedd yr ôl-drafodaethau gyda'r plant yn amserol. Yn ein harolwg, roedd 71% o'r plant a oedd wedi cael eu hatal wedi cadarnhau bod aelod o staff wedi siarad â nhw amdano wedyn.

2.33 Nid oedd unrhyw dechnegau i ysgogi poen wedi cael eu defnyddio gyda phlant ers yr arolygiad diwethaf. Roedd saith digwyddiad wedi arwain at anaf neu arwydd rhybudd, er enghraifft, plentyn yn dweud nad oedd yn gallu anadlu, ac ymchwiliwyd yn drylwyr i bob un ohonynt.

## Gwahanu/symud o leoliad arferol

Canlyniadau disgwyliedig: Dim ond gyda'r awdurdod priodol y caiff plant eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion, a chaiff hynny ei wneud yn ddiogel, yn unol â'u hanghenion unigol, am resymau priodol ac nid fel cosb.

2.34 Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd 88 o blant wedi cael eu gwahanu ar 258 o achlysuron, sy'n uwch na'r arolygiad diwethaf. Roedd tua 78% o'r plant hyn yn aros am eu hymchwiliad cyntaf i droseddau honedig ond roeddent fel arfer yn cael eu hailintegreiddio o fewn un i ddau ddiwrnod. Roedd y 22% o blant sy'n weddill wedi'u gwahanu er mwyn cadw trefn dda neu er mwyn diogelu plant. Awdurdodwyd pob achos o wahanu yn briodol.

2.35 Cynhaliwyd cyfnodau gwahanu yn bennaf yng nghell y plentyn, gan ganiatáu mynediad parhaus at weithgareddau addysg a chyfoethogi. Serch hynny, roeddent yn gwneud cynnydd arafach mewn dosbarthiadau addysg na'u cyfoedion nad ydynt wedi'u gwahanu. Dros y 12 mis diwethaf, dim ond chwe gwaith y defnyddiwyd y celloedd yn yr uned cymorth dwys (uned wahanu ar T6), a hynny ar gyfer plant sy'n gymhleth, yn heriol ac yn aml yn aflonyddgar.



**Uned cymorth dwys**

2.36 Roedd y gwaith o gynllunio ailintegreiddio wedi gwella ac yn cael ei gynnal ar ddechrau'r gwahanu. Roedd y cynlluniau'n rhoi sylw i'r rhesymau dros wahanu ac yn darparu nodau unigol i annog newid ymddygiad. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o gyfnodau gwahanu yn fyr.

2.37 Roedd cyfarfodydd MARG i fonitro'r defnydd o wahanu yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gyda nifer dda yn bresennol, ac roeddent yn gwneud defnydd da o ddata. Dangosodd arweinwyr ymwybyddiaeth a goruchwyliaeth dda o achosion, yn ogystal â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyfnodau gwahanu estynedig.

2.38 Roedd y gwaith o gadw cofnodion wedi gwella, gyda sicrwydd ansawdd da.

# Adran 3 Gofal

**Mae'r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas dynol.**

## Y berthynas rhwng y staff a'r plant

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r plant yn cael eu trin â gofal gan yr holl staff, a disgwylir iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain, ac maent yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud hynny. Mae staff yn gosod ffiniau clir a theg. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac maent yn eu helpu i gyflawni eu potensial.

3.1 Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r plant, a gefnogwyd gan staffio cyson a'i hwyluso gan yr amser yr oedd y plant yn ei dreulio allan o'u celloedd.

3.2 Roedd y rheolwyr yn weladwy ac ar gael i'r plant ac roeddent wedi sefydlu ethos tîm cryf a chefnogol ar yr uned plant. Roedd cyfarfodydd boreol dyddiol yn sail i rannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws yr holl swyddogaethau sy'n gweithio gyda'r plant, gan helpu i gynnal cysondeb o ran eu cefnogi a'u rheoli.

3.3 Roedd y plant yn cael sesiynau cynllun cymorth cystodaeth (CuSP) wythnosol gyda'u swyddog CuSP dynodedig, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod y rhain yn werth chweil ac yn fforwm defnyddiol ar gyfer rhannu unrhyw broblemau a oedd ganddynt. Roedd cofnodion y sesiynau'n dangos dealltwriaeth dda o blant unigol a'u hanghenion, ac o'r cymorth, y ganmoliaeth, yr anogaeth a'r her a roddwyd iddynt i'w galluogi i weithio tuag at eu nodau.


3.4 Roedd rolau gweithwyr cymheiriaid wedi'u cyflwyno i ddarparu cymorth mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys sefydlu, y rhai y mae gwrthdaro'n effeithio arnynt, a hyrwyddo triniaeth deg. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r rolau hyn o amgylch yr unedau, ac roedd y plant dan sylw yn glir ynghylch sut roeddent yn cefnogi eraill.

## Bywyd bob dydd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac maent yn ymwybodol o reolau ac arferion y sefydliad. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

## Amodau byw

3.5 Roedd gan y celloedd offer da ac roedd y staff yn annog y plant i gadw'r rhain a'r ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus. Roedd y celloedd wedi cael eu hailwampio ers yr arolygiad diwethaf ac erbyn hyn roedd ganddynt gawodydd ynghyd â ffenestri wedi'u hadnewyddu. Roedd deunyddiau glanhau ar gael yn rhwydd ac roedd llawer o blant yn ymfalchïo yn eu celloedd, gyda chystadlaethau wythnosol yn annog hyn. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi dillad ac iardiau ymarfer corff allanol hefyd yn dda.




**Cell (chwith) ac ardal ymarfer corff**

3.6 Roedd y plant yn poeni am oedi cyn derbyn eu heiddo. Roedd rheolwyr wedi ceisio symleiddio prosesau a sicrhau bod eiddo'r plant yn cael ei reoli ar wahân i'r hyn a fwriadwyd ar gyfer y carchar i oedolion.

3.7 Roedd y plant yn gwneud defnydd da o'u tabledi electronig yn y celloedd i drefnu ymweliadau, archebu credyd ffôn ac eitemau o'r siop, ac anfon negeseuon at gysylltiadau cymeradwy. Roedd y tabledi hefyd yn cynnwys gemau, cerddoriaeth, ymarferion, newyddion a diweddariadau chwaraeon, a deunydd darllen. Eglurodd un plentyn y buom yn siarad ag ef sut roedd ef ac eraill wedi dysgu chwarae gwyddbwyll fel hyn a'i fod bellach yn ei chwarae ar yr uned o bryd i'w gilydd.

## Gwasanaethau preswyl

| Arolwg o garcharorion Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi | Ydy | O'i gymharu â charchardai tebyg |
|---|---|---|
| Ydy'r bwyd yma'n dda iawn / eithaf da? | **60%** | Uwch |

3.8 Roedd y plant yn bwyta prydau gyda'i gilydd oni bai eu bod wedi'u gwahanu am resymau diogelwch neu'n cael eu cosbi. Roedd y cylch bwydlen pedair wythnos yn rhoi amrywiaeth addas iddynt.



**Enghraifft o bryd gyda'r nos**

## Ymgynghori, ceisiadau ac unioni

3.9 Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau'n anffurfiol, ac yn cael eu cyflwyno ar lafar gan blant i aelod o staff yr uned ac yn cael eu datrys yn gyflym.

3.10 Roedd 44 o gwynion wedi cael eu gwneud yn ystod y 12 mis blaenorol. Atebwyd y rhan fwyaf ohonynt yn brydlon, gydag ymatebion clir a chwrtais er mwyn datrys y sefyllfa.

3.11 Ymgynghorwyd yn rheolaidd â phlant ac roedd rheolwyr wedi cryfhau ffocws y fforymau misol yn ddiweddar drwy gyflwyno data monitro i'w drafod gyda chynrychiolwyr y plant. Roedd tystiolaeth bod newidiadau ar droed yn dilyn awgrymiadau gan y plant.

3.12 Roedd Barnardo's (elusen genedlaethol i blant) yn cynnig gwasanaeth eirioli hawdd ei ddefnyddio a oedd yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawliau ac yn eu helpu i ddatrys problemau.

3.13 Roedd gweithwyr achos y tîm anghenion, ymgysylltu a lles (NEWT), gweithwyr cymdeithasol unedau, ac eiriolwyr Barnardo's yn cynghori plant ar eu hawliau cyfreithiol. Roedd ymweliadau cyfreithiol wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo ar gael yn ystod yr wythnos. Nid oedd llyfrgell yr uned yn cadw unrhyw destunau cyfreithiol na rheolau'r Gwasanaeth Carchardai, ond gallai llyfrgellydd o brif lyfrgell y safle ddarparu'r rhain, a oedd yn ymweld bob wythnos.

## Triniaeth deg a chynhwysiant

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn dangos dull clir a chydlynol o ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo canlyniadau teg a meithrin cysylltiadau da, ac mae'n sicrhau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais annheg. Mae hyn yn seiliedig ar brosesau effeithiol i ganfod a datrys unrhyw anghydraddoldeb. Mae anghenion amrywiol pob plentyn yn cael eu cydnabod a'u diwallu.

3.14 Roedd adnoddau wedi'u dynodi ar gyfer hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi gwella; roedd data nawr yn cael ei gynhyrchu ac yn destun craffu. Roedd y cymorth i blant o gefndiroedd gwahanol wedi'i deilwra'n briodol ar gyfer yr unigolyn. Roedd gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig pob plentyn (gweler Geirfa) yn cael ei chadw ar gronfa ddata 'cryfderau a diwylliant' a oedd yn rhoi gwybod am y gwaith a wnaed gyda nhw. Yn ddiweddar, roedd arweinwyr wedi nodi bod gan lawer o'r plant gyflyrau niwroamrywiol, a oedd yn cael effaith ar eu hymddygiad. O ganlyniad, roedd y tîm seicoleg wedi cynnal hyfforddiant staff ar gyflwyno CuSP (gweler yr eirfa) i blant o'r fath. Roedd arweinwyr hefyd wedi gwneud ymdrechion i hyrwyddo ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth ymysg y grŵp staff.

3.15 Roedd 13 o gwynion gwahaniaethu wedi cael eu cyflwyno yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn is nag ar adeg yr arolygiad blaenorol (21). Ymchwiliwyd yn briodol i'r cwynion hyn; roeddent yn aml yn cael eu cadarnhau ac yn arwain at gamau gweithredu.

3.16 Roedd rhaglen brysur o ddigwyddiadau dathlu ac ymwybyddiaeth yn cael ei chynnal.

3.17 Adeg yr arolygiad, roedd bron i 40% o'r plant yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

3.18 Roedd yna ddau blentyn gwladolyn tramor adeg yr arolygiad. Roedd gweithwyr Barnardo's a swyddog gwladolyn tramor arbenigol o brif ran y carchar yn cefnogi NEWTs i sicrhau bod anghenion y plant hyn yn cael sylw.

3.19 Ymwelodd caplaniaid â'r uned bob dydd i gyflawni eu dyletswyddau statudol (gan gynnwys ymweld â phlant sydd wedi'u gwahanu a chroesawu newydd-ddyfodiaid), ac ymgysylltu ag unrhyw blant a oedd yn dymuno siarad â nhw. Roedd cymorth ar gael i blant a oedd yn dioddef salwch neu brofedigaeth yn y teulu. Fodd bynnag, roedd gwrthdaro rhwng plant yn golygu nad oedd nifer yn gallu bod yn bresennol yn y sesiynau addoli mewn grŵp bob wythnos.

## Gwasanaethau iechyd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn cael gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion o ran iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau ac sy'n hyrwyddo parhad iechyd a gofal cymdeithasol pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y gwasanaeth iechyd yr un fath â'r hyn y gallai plant ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

### Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

3.20 Roedd gweithio mewn partneriaeth wedi hen ennill ei blwyf ar bob lefel ac roedd cyfarfodydd llywodraethu lleol yn goruchwylio'r gwasanaeth plant. Fodd bynnag, tanseiliwyd llywodraethu clinigol gan lefelau isel o roi gwybod am ddigwyddiadau, cadw cofnodion anghyson, methu â chwblhau asesiadau CHAT (adnodd asesu iechyd cynhwysfawr) yn brydlon, a chynlluniau gofal annigonol neu wael. Roedd archwiliadau mewnol wedi nodi rhai o'r materion hyn, ond nid oeddent wedi mynd i'r afael â nhw.

3.21 Roedd y plant yn adnabod y nyrsys wrth eu henwau, yn ogystal â'u rolau clinigol. Roedd y rhyngweithio a welsom yn garedig, yn ofalgar ac yn parchu anghenion y plant.

3.22 Roedd goruchwyliaeth glinigol ar waith, ond nid oedd digon o gyfleoedd ar gyfer ymarfer myfyriol, a fyddai wedi bod yn fecanwaith defnyddiol i fynd i'r afael â phryderon am blant.

3.23 Roedd yr ystafell rhoi meddyginiaethau yn cynnwys cowtsh archwilio ond nid oedd yn lle priodol i gynnal asesiad clinigol. Er enghraifft, roedd y tymheredd yn yr ystafell yn rhy uchel, a gallai hynny hefyd fod wedi effeithio ar effeithiolrwydd y meddyginiaethau a gedwir yno.

3.24 Darparwyd gwasanaeth brys gan staff o'r carchar i oedolion, ond nid oedd y broses drosglwyddo'n gadarn nac yn cael ei deall yn dda, ac roedd hynny wedi arwain at fylchau mewn gofal.

3.25 Roedd y staff yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn y carchar i ddiogelu plant.

### Hybu iechyd a lles

3.26 Roedd amrywiaeth o ddeunyddiau'n cael eu harddangos trwy'r uned i gyd er mwyn hybu iechyd a lles. Roedd y deunyddiau hynny'n defnyddio iaith sy'n addas i blant ac yn adlewyrchu ymgyrchoedd cenedlaethol.

3.27 Roedd gan y plant fynediad da at amrywiaeth o frechiadau, ac roedd y rhain yn cael eu rheoli'n dda a'u rhoi yn y llyfrgell fach, gan leihau'r amser yr oedd yn rhaid iddynt ei fethu o'r dosbarthiadau addysg.

3.28 Roedd y nifer sy'n manteisio ar sgrinio iechyd rhywiol a chyfraddau imiwneiddio rhag feirws papiloma dynol (HPV) wedi gwella yn dilyn sesiynau addysg a oedd yn defnyddio ffotograffau i ddangos symptomau clefydau a drosglwyddir yn rhywiol, yn ogystal â thrafodaethau ynghylch rhyw diogel. Gellid cyfeirio plant am asesiad bellach a thriniaeth os oes angen.

3.29 Roedd therapi disodli nicotin ar gael ac yn cael ei gefnogi gan addysg seicogymdeithasol ynghylch lleihau'r niwed o ysmygu. Roedd y plant yn cael cyfle i archwilio agweddau ar iechyd – er enghraifft, fepio – drwy sesiynau grŵp bach anffurfiol. Roedd y sesiynau hyn wedi cael adborth cadarnhaol.

**Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol**

3.30 Roedd nyrs yn sgrinio pob newydd-ddyfodiad gan ddefnyddio CHAT. Fodd bynnag, roedd hyn yn digwydd mewn ystafell a oedd yn cael ei rhannu â staff y carchar, a oedd yn golygu nad oedd y sgrinio'n breifat nac yn gyfrinachol.

3.31 Roedd y plant yn cael gofal priodol, gan gynnwys gofal ar gyfer cyflyrau hirdymor. Roedd meddygon teulu'n ymweld â'r uned yn rheolaidd i weld cleifion, a oedd yn lleihau'r angen i drosglwyddo plant drwy'r carchar i oedolion i'r brif uned gofal iechyd. Serch hynny, nid oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos i roi gwybod i blant fod ganddynt yr opsiwn o gael hebryngwr neu gallant ddewis gweld meddyg teulu o'u hoff ryw.

3.32 Roedd apwyntiadau brys gyda meddyg teulu ar gael ar yr un diwrnod, ac nid oedd yn rhaid aros yn hir am apwyntiadau arferol.

3.33 Adolygodd y nyrs yr holl blant a oedd wedi cael eu hatal neu a oedd wedi bod yn rhan o wrthdaro cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad ac eto'r diwrnod canlynol.

3.34 Cyfeiriwyd pob plentyn at y gwasanaeth optometreg, gydag uchafswm aros o bedair wythnos. Roedd y ffisiotherapydd yn gweld y plant yn ôl yr angen, a chynigiwyd apwyntiadau arferol yn brydlon.

3.35 Roedd gan blant fynediad da at apwyntiadau gofal eilaidd yn yr ysbyty lleol, er mai anaml iawn yr oedd angen hyn.

3.36 Adeg yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn yn cael pecyn gofal cymdeithasol (gweler Geirfa). Roedd y staff yn deall sut i wneud atgyfeiriad os oedd angen.

**Iechyd meddwl**

3.37 Roedd nyrs iechyd meddwl gofal sylfaenol amser llawn a oedd yn cwrdd â'r holl blant i gynnal sgriniad iechyd meddwl, er nad oedd CHAT niwroamrywiaeth bob amser yn cael ei gwblhau. Adeg yr arolygiad, roedd gan y nyrs lwyth achosion o saith a chynhaliodd rai sesiynau grŵp bach anffurfiol.

3.38 Ymwelodd y nyrs â phlant a oedd wedi'u gwahanu neu a oedd mewn perygl o hunan-niweidio er mwyn darparu cefnogaeth barhaus a chyfrannu at gynllunio gofal amlddisgyblaethol.

3.39 Roedd gweithio ar y cyd â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant â diagnosis deuol o anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar gael.

3.40 Ers yr arolygiad diwethaf, nid oedd unrhyw gynnydd wedi cael ei wneud o ran darparu therapïau cysylltiedig i ddiwallu holl anghenion y plant, a oedd yn gyfle a gollwyd i ymyrryd yn gynnar.

3.41 Roedd seiciatrydd a nyrs iechyd meddwl arbenigol i blant yn ymweld bob wythnos, a oedd yn darparu asesiadau ac yn cynnal adolygiadau rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad, roedd yn amlwg bod y plant yn gwerthfawrogi'r seiciatrydd ac yn sgwrsio ag ef yn ddigymell ar amrywiaeth o faterion.

3.42 Roedd asesiadau niwroamrywiaeth, diagnosteg a rhagnodi ar gael. Roedd y seiciatrydd yn ymgymryd â'r holl ragnodi'n uniongyrchol ac roedd plant a oedd ar feddyginiaeth yn cael eu monitro'n rheolaidd o ran iechyd corfforol, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Roedd cynlluniau gofal ac asesu risg yn cael eu cynnwys yn y cofnodion clinigol ac yn galluogi dilyniant mewn gofal a chyfathrebu da rhwng timau.

3.43 Nodwyd bod plentyn â salwch meddwl difrifol wedi cael ei drosglwyddo i ysbyty iechyd meddwl diogel ymhell o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Roedd darparwyr wedi cydweithio'n dda i wneud yn siŵr bod yr asesiadau angenrheidiol yn cael eu cwblhau'n gyflym, ac roedd y cyswllt â'r teulu a'r tîm gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y gymuned wedi bod yn effeithiol, a gwely ysbyty wedi'i sicrhau. Roedd hyn wedi gwella mynediad y plentyn at lefel briodol o asesu, gofal a thriniaeth. Roedd staff y carchar a'r nyrs iechyd meddwl wedi hebrwng y plentyn i'r ysbyty i gwblhau'r broses drosglwyddo.

## Camddefnyddio sylweddau

3.44 Roedd y plant yn derbyn gwasanaeth camddefnyddio sylweddau da, a oedd yn canolbwyntio ar ymyriadau seicogymdeithasol a lleihau niwed.

3.45 Defnyddiodd nyrsys y graddfeydd diddyfnu camddefnyddio sylweddau (gweler Geirfa) i asesu plant sy'n cyrraedd o'r llys, ond ni chawsant eu hyfforddi'n benodol i asesu anghenion plant o ran camddefnyddio sylweddau. Nid oedd unrhyw blentyn angen cael therapi amnewid opiadau ar gyfer diddyfnu aciwt, ond gallai meddygon teulu ragnodi hyn yn ôl yr angen.

3.46 Gwelodd gweithiwr adfer profiadol yr holl newydd-ddyfodiaid, a darparu cyngor unigol ar leihau niwed iddynt. Roedd yr ymyriadau'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn eang.

3.47 Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn dangos bod lefel uchel o asesiadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, cynlluniau gofal, ac

ymyriadau wedi'u cynllunio, wedi cael eu cynnal. Roedd cynlluniau gofal a chofnodion achos yn cael eu cadw ar wahân, ac nid yn y cofnodion clinigol. Fodd bynnag, dywedwyd wrth glinigwyr pan oedd plentyn yn ymgysylltu â'r gwasanaeth.

3.48 Nid oedd ystafelloedd penodol i staff weld y plant, a oedd yn effeithio ar effeithiolrwydd gan nad oedd y mannau a ddefnyddiwyd bob amser yn briodol ar gyfer cynnal trafodaethau ystyrlon a diogel. Ychydig o adborth a gafwyd gan blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i wella'r defnydd o hyn fel sail i ddatblygu'r gwasanaeth.

3.49 Roedd y cynllunio cyn-rhyddhau yn dda ac yn cynnwys cysylltu â gwasanaethau cymunedol, a oedd yn cynnwys y plentyn yn gynnar yn y broses.

**Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol**

3.50 Roedd y gwasanaeth i blant yn cael ei reoli gan brif fferyllydd, ac roedd y gwaith o oruchwylio wedi gwella. Roedd cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau yn nodi anghenion plant yn benodol, ac yn monitro archwiliadau rhagnodi. Cynhaliwyd archwiliad i'r defnydd o melatonin (tabledi cysgu a ddefnyddir gan blant) a rhannwyd y canlyniadau â chydweithwyr yn y carchar, a oedd yn arfer da.

3.51 Roedd y fferyllfa'n adolygu'r plant a oedd yn cyrraedd gyda meddyginiaeth, a chafwyd rhagor o wybodaeth gan y meddyg teulu cymunedol. Fodd bynnag, cafodd plant yr oedd angen meddyginiaeth newydd arnynt eu gweld yn brydlon gan y meddyg teulu.

3.52 Roedd yr holl blant yr oedd angen meddyginiaeth arnynt yn ei chael gan y nyrs yn y bore, cyn mynd i'w dosbarthiadau addysg. Roedd unrhyw ddosau dilynol yn cael eu rhoi rhwng 11.45am a 5pm. Cynhaliwyd y gwaith o roi meddyginiaethau trwy hatsh a oedd yn agor ar y prif goridor ac nid oedd yn gyfrinachol. Fodd bynnag, roedd gwaith da o oruchwylio'r plant yn cael ei wneud yno.

3.53 Adeg yr arolygiad, roedd gan un plentyn ei feddyginiaeth yn ei feddiant, ac roedd ei asesiad risg yn gyfredol. Roedd asesiadau risg ar gyfer plant a oedd yn derbyn meddyginiaethau yn cael eu cynnal yn ôl yr angen, ac yna'n cael eu hadolygu.

3.54 Roedd hi'n bosibl cael meddyginiaethau ar bresgripsiwn y tu allan i oriau drwy'r fferyllfa ar y safle, yn ôl yr angen.

**Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg**

3.55 Cafodd pob plentyn ei gyfeirio at y deintydd ar ôl cyrraedd. Roedd slotiau wedi'u neilltuo ar gyfer y plant, a oedd yn gweld y deintydd yn y carchar i oedolion, ac nid oedd rhestr aros ar gyfer apwyntiadau arferol. Roedd apwyntiadau penodol wedi'u neilltuo ar gyfer y plant a oedd angen triniaeth ac roedd yr amseroedd aros yn fyr.

3.56 Roedd cyngor hylendid deintyddol a hybu iechyd y geg yn cael eu cynnig ym mhob cyswllt. Darparwyd analgesia dros y cownter i blant a gafodd boen ddeintyddol ac fe'u gwelwyd mewn apwyntiad brys i leihau'r oedi.

3.57 Nodwyd bod pum plentyn a oedd wedi dechrau triniaeth orthodontig yn y gymuned wedi cael eu cyfeirio at yr orthodeintydd lleol i sicrhau dilyniant mewn gofal.

# Adran 4 Gweithgarwch pwrpasol

**Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

## Amser allan o'r gell

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser allan o'u celloedd, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol, saith diwrnod yr wythnos.

| Arolwg o garcharorion Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi | Ydw | O'i gymharu â charchardai tebyg |
|---|---|---|
| Ydych chi'n treulio mwy na 2 awr allan o'ch cell neu ystafell fel arfer ar ddydd Sadwrn a dydd Sul? | **87%** | Uwch |

4.1 Dangosodd y cofnodion fod yr amser allan o'r gell (gweler Geirfa) ar gyfartaledd yn ystod yr wythnos ychydig dros saith awr, ac ar benwythnosau roedd ychydig o dan chwe awr. Dywedodd un plentyn wrthym fod y drefn efydd yn y Parc yn well na'r drefn aur yn ei Sefydliad Troseddwyr Ifanc blaenorol.

4.2 Fodd bynnag, roedd y cyfartaleddau hyn yn cuddio rhai profiadau unigol gwahanol iawn, gyda phlant ar y drefn blatinwm yn treulio dros 11 awr y dydd heb fod dan glo, tra bod plant wedi'u gwahanu yn treulio llai na dwy awr allan o'r gell.


4.3 Drwy gynllunio'n ofalus, manteisiodd arweinwyr i'r eithaf ar y lle cyfyngedig sydd ar gael i liniaru'r effaith negyddol a gafodd cadw plant mewn gwrthdaro ar wahân ar eu mynediad at y drefn. Roedd hyn yn golygu bod bron pob plentyn yn y Parc wedi profi gweithgarwch a rhyngweithio mwy ystyrlon na'u cyfoedion mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill.

4.4 Roedd y rhan fwyaf o blant yn rhagori ar y targed wythnosol o 12 awr o weithgarwch cyfoethogi. Roedd y tîm cyfoethogi yn talu sylw manwl i'r rhai a oedd wedi'u gwahanu oddi wrth eu cyfoedion, a hynny'n briodol, i wneud yn siŵr eu bod yn cael cymryd rhan mewn digon o weithgareddau hamdden.

4.5 Roedd mathau newydd o weithgarwch yn cael eu canfod yn barhaus ac roedd yr arweinwyr yn ymatebol i geisiadau gan blant. Roedd yr ychwanegiadau diweddar yn cynnwys defnyddio efelychydd i ennill cymhwyster wagen fforch godi, a chwrs cynnal a chadw rheilffyrdd. Roedd coginio i elusen leol yn dal yn rhan annatod o'r gwaith tuag at

wobr Dug Caeredin. Roedd y plant yn siarad yn gadarnhaol am weithgareddau yn yr uned e.e. tenis bwrdd, pŵl, dartiau a chonsolau gemau, ac roedd cŵn therapi yn ymweld â nhw'n rheolaidd.






**Prydau bwyd yn cael eu paratoi ar gyfer elusen ddigartrefedd leol (chwith) a'r ardal gymdeithasu**

4.6 Roedd gan y rhan fwyaf o blant fynediad i'r llyfrgell o leiaf unwaith yr wythnos, ac roedd cynlluniau fel cypyrddau llyfrau ar yr unedau preswyl a mewnbwn wythnosol gan ddarllenydd preswyl y carchar yn cefnogi llythrennedd. Roedd llyfrgellydd o'r prif garchar yn llyfrgell yr uned bob wythnos a gallai helpu plant i ddod o hyd i eitemau nad oeddent ar gael yno. Roedd digwyddiadau hyrwyddo darllen ar y prif safle, megis 'bingo llyfrau' sydd ar y gweill, hefyd ar gael i blant gymryd rhan ynddynt.



**Y llyfrgell**

4.7 Roedd y gampfa a'r cae glaswellt artiffisial yn parhau i fod yn adnoddau poblogaidd sy'n cael eu defnyddio'n helaeth ar gyfer dosbarthiadau addysg ar yr amserlen. Yno byddai'r plant yn gweithio tuag at gymwysterau chwaraeon, ac ar gyfer addysg gorfforol hamdden. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein harolwg, gyda 84% (o'i gymharu â 43% mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill) yn dweud eu bod yn gallu mynd i'r gampfa neu gymryd rhan mewn chwaraeon fwy nag unwaith yr wythnos. Gwnaed gwaith atgyweirio mawr ei angen ar offer y gampfa ar ddechrau'r arolygiad.




**Y gampfa (chwith) a'r cae glaswellt artiffisial**

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith

Canlyniadau disgwyliedig: Disgwylir i bob plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, sgiliau neu waith sy'n hybu datblygiad personol a chyflogadwyedd, ac maent yn cael eu galluogi i wneud hynny. Mae digon o addysg, sgiliau a mannau gwaith addas i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mae'r ddarpariaeth o safon dda.

Estyn sy'n arolygu'r ddarpariaeth o addysg, sgiliau a gwaith mewn sefydliadau cadw yng Nghymru. Darparwyd y crynodeb canlynol gan arolygwyr Estyn a fynychodd yr arolygiad hwn. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad II.

4.8 Asesodd Estyn bod y ddarpariaeth dysgu a sgiliau a gwaith yn y Parc yn dda.

4.9 Roedd arweinwyr wedi gweithio'n bwrpasol i gryfhau ansawdd y ddarpariaeth a gwella canlyniadau i ddysgwyr ers yr arolygiad craidd diwethaf.

4.10 Roedd y cydweithio rhwng Novus Gower a G4S wedi gwella, ac roedd y berthynas â staff gweithredol a gofal iechyd yn fwy effeithiol. Roedd y partneriaethau hyn yn cefnogi'r gwaith o redeg y ddarpariaeth yn dda o ddydd i ddydd.

4.11 Roedd arweinwyr hefyd wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhaglen sefydlu fuddiol ar gyfer staff newydd, a oedd yn defnyddio arbenigedd ar draws partneriaid yn effeithiol. Roedd y gwelliannau hyn, ochr yn ochr â phrosesau hunanwerthuso a chynllunio cryfach, wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd yr addysgu a chanlyniadau dysgwyr.

4.12 Roedd arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gliriach ar gyfer y cwricwlwm a'r ddarpariaeth gyffredinol, ac mewn llawer o achosion roedd y staff yn deall hyn.

4.13 Dangosodd yr arweinwyr hyblygrwydd priodol i ddiwallu'r ystod lawn o anghenion y dysgwyr – er enghraifft, defnyddio arbenigedd a chymorth o garchar y dynion i gefnogi dysgwyr sy'n gweithio tuag at Safon Uwch neu sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

4.14 Roedd yr arweinwyr wedi cyflwyno cynlluniau i gefnogi datblygiad ehangach y dysgwyr, gan gynnwys strategaeth ddarllen. Fe'i datblygwyd ar y cyd â staff gweithredol, llyfrgellydd y carchar a'r darllenydd preswyl. Roedd hyn yn dechrau gwella ymgysylltiad o ran darllen.

4.15 Yn ystod eu gwersi, gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd cadarn ynghyd â datblygu sgiliau a gwybodaeth am y pwnc yn dda. Roedd y dysgwyr a oedd wedi cael eu gwahanu yn gwneud cynnydd arafach na'u cyfoedion. Cafodd y dysgwyr hyn lai o oriau cyswllt.

4.16 Dim ond un rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar elfennau galwedigaethol oedd ar gael ar hyn o bryd (mewn cynnal a chadw rheilffyrdd), ac nid oedd hynny'n ddigonol. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr ar y cwrs hwn yn ymwneud yn dda â thasgau ymarferol, yn defnyddio offer ac yn datblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n berthnasol i elfennau galwedigaethol.

4.17 Datblygodd y staff berthynas waith gynhyrchiol ac effeithiol iawn gyda dysgwyr, ac roedd hynny'n cefnogi amgylchedd dysgu cadarnhaol. Roedd staff wedi sefydlu system rheoli ymddygiad effeithiol, a oedd wedi arwain at well ymddygiad cadarnhaol a mwy o ymgysylltu â dysgu.



**Ystafelloedd dosbarth**

4.18 Mewn gwersi, roedd perthynas gadarnhaol rhwng y dysgwyr a'r staff. Roedd perthynas waith agos rhwng staff gweithredol ac athrawon a oedd yn rhoi cefnogaeth mewn perthynas â rheoleiddio emosiynol. Roedd ymyriadau addysg wedi'u targedu yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd mewn meysydd allweddol.

4.19 Mae athrawon yn gosod disgwyliadau priodol ar gyfer cyflawniad dysgwyr. Hynny yw, modelau iaith ac ymddygiad da i ddysgwyr. Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu sesiynau'n dda ac yn cynnwys amrywiaeth o dasgau, adnoddau a gweithgareddau a oedd yn helpu i gynnal diddordeb a chymhelliant dysgwyr. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, roedd yr addysgu'n llai effeithiol.

4.20 Roedd yr amserlen yn cynnig 25 awr o amser addysg wedi'i gynllunio yr wythnos i ddysgwyr. Roedd hyn wedi'i strwythuro'n dda ac yn caniatáu egwyl fer rhwng sesiynau, lle gallai'r dysgwyr gymdeithasu neu ymlacio, ac roedd hyn yn cyfrannu at lefelau canolbwyntio da yn y dosbarth ar y cyfan.

4.21 Roedd darpariaeth werth chweil a oedd yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu mwy am ddiwylliant, hanes a threftadaeth Cymru.

# Adran 5 Ailsefydlu

**Mae plant yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ac yn cael eu helpu'n effeithiol i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.**

## Plant, teuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

Canlyniadau disgwyliedig: Mae rheolwyr yn cefnogi plant i sefydlu a chynnal cysylltiad â theuluoedd, gan gynnwys rhieni corfforaethol, a ffynonellau cymorth eraill yn y gymuned. Mae partneriaid cymunedol yn gyrru hyfforddiant a chynllunio remand, ac mae teuluoedd yn rhan o'r holl benderfyniadau mawr am blant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.

5.1 Roedd y ddarpariaeth ar gyfer plant a theuluoedd yn dda, ac roedd yr holl waith teulu yn parhau i fod yn seiliedig ar anghenion unigol y plant. Roedd amseroedd ymweld yn gyfleus a defnyddiwyd sensitifrwydd â theuluoedd a oedd yn teithio pellteroedd hir er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r dyraniad ymweliadau. Roedd ardaloedd ymweld yn dangos ôl traul ac roedd angen eu hailaddurno.





**Ardaloedd ymweld**

5.2 Roedd gweithiwr cymorth i deuluoedd amser llawn, ac yn ein harolwg dywedodd 86% o blant eu bod wedi cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu.

5.3 Dros y 12 mis diwethaf, roedd chwe ymweliad teulu a phedwar ymweliad arbennig wedi cael eu trefnu i gefnogi teuluoedd ag anghenion ychwanegol. Roedd teuluoedd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu ac yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud hynny. Pan gynhaliwyd digwyddiadau dathlu, gwahoddwyd teuluoedd i fod yn bresennol.

| Arolwg o garcharorion Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi | Ydw | O'i gymharu â charchardai tebyg |
|---|---|---|
| Ydych chi'n derbyn galwadau fideo diogel gan deulu neu ffrindiau? | **55%** | Uwch |

5.4 Roedd galwadau fideo diogel (gweler Geirfa) yn cael eu rheoli'n dda. Roedd tabledi yn y celloedd, a oedd newydd gael ei gyflwyno, hefyd yn galluogi'r plant i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

## Cyn-rhyddhau ac ailsefydlu

> Canlyniadau disgwyliedig: Mae cynllunio ar gyfer rhyddhau neu drosglwyddo plentyn yn dechrau pan fydd yn cyrraedd y sefydliad. Mae ailsefydlu yn sail i waith y sefydliad cyfan, wedi'i gefnogi gan bartneriaethau strategol yn y gymuned ac wedi'i lywio gan asesiad o risg ac anghenion y plentyn. Mae cynllunio parhaus yn sicrhau trosglwyddiad di-dor i'r gymuned.

5.5 Roedd gan arweinwyr a NEWTs ddealltwriaeth dda o anghenion plant ac roeddent yn gweithio'n galed i'w diwallu. Roedd y gweithwyr achos yn cwrdd â phlant yn ystod eu cyfnod sefydlu i ddechrau cynllunio dedfrydau neu remand, ac roedd y cyswllt yn dda drwy gydol eu hamser yn y sefydliad. Er na chofnodwyd pob cyswllt, roedd y prif bwyntiau a'r wybodaeth bwysig yn cael eu cofnodi. Nid oedd cynlluniau dedfrydu bob amser yn glir ynghylch risg, ond roedd gweithwyr achos yn ymwybodol o'r risgiau yr oedd plant yn eu peri ac yn trefnu ymyriadau'n dda.

5.6 Roedd y cyfnod pontio i garchardai i oedolion yn weddol dda, ar yr amod bod lleoliadau'n cael eu sicrhau mewn da bryd. Roedd NEWTs yn paratoi plant yn dda ar gyfer symud i'r ystâd oedolion ac yn aml yn cynnal cyswllt ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo. Er gwaethaf system genedlaethol ar gyfer cytuno ar drosglwyddiadau, parhaodd rhai carchardai i oedolion i wrthod ceisiadau gan greu oedi a rhwystredigaeth i'r plant dan sylw.

5.7 Adeg yr arolygiad, nid oedd rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) yn digwydd a dim ond pedwar digwyddiad oedd wedi cael eu hawdurdodi yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i gefnogi addysg neu gysylltiadau teuluol ar gyfer plant a oedd yn bodloni'r meini prawf.

5.8 Roedd pedwar plentyn wedi cael eu hystyried ar gyfer cyrffyw cyfyngu i'r cartref yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd y system yn cael ei rheoli'n dda.

**Diogelu'r cyhoedd**

5.9 Roedd rhai gwendidau o ran monitro galwadau ffôn a negeseuon a oedd yn cael eu gwneud gan blant a allai beri risg o niwed i'r cyhoedd. Roedd staff a oedd yn monitro galwadau ffôn yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn gwrando ar alwadau gan garcharorion sy'n oedolion ac yn anghyfarwydd â'r iaith a ddefnyddir gan blant; roedd hyn yn llesteirio eu gallu i nodi pryderon. Roedd oedi hefyd wrth fonitro negeseuon sy'n cael eu hanfon drwy ddyfeisiau tabled yn y celloedd.

5.10 Nid oedd lefelau trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA; gweler yr eirfa) bob amser yn cael eu cadarnhau ar amser ac nid oedd proses uwchgyfeirio ffurfiol. Roedd rhai cyfraniadau MAPPA yn rhy hir ac ailadroddus, ond roedd y rhai gwell yn dangos dadansoddiad da ac yn darparu cyd-destun defnyddiol o amgylchiadau personol mewn perthynas â risgiau.

**Plant sy'n derbyn gofal**

| Arolwg o garcharorion Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi | Do | O'i gymharu â charchardai tebyg |
|---|---|---|
| Ydych chi erioed wedi bod mewn gofal awdurdod lleol? | **91%** | Uwch |

5.11 Roedd y ddarpariaeth gwaith cymdeithasol ac ymgysylltu â phartneriaethau wedi cryfhau, gyda gweithwyr cymdeithasol yn fwy gweladwy ar yr unedau a gwaith goruchwylio yn cael ei gynnal drwy gyfarfodydd diogelu wythnosol. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn eiriol dros blant drwy herio arferion anghyson awdurdodau lleol, egluro disgwyliadau o ran cadw dan glo, a gwneud yn siŵr bod plant yn cael cymorth ariannol priodol a chysylltiad gofal cymdeithasol.

## Cynllunio ailintegreiddio

Canlyniadau disgwyliedig: Mae anghenion ailsefydlu plant yn cael sylw cyn eu rhyddhau. Defnyddir ymateb amlasiantaeth effeithiol i ddiwallu anghenion penodol pob plentyn unigol er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.

5.12 Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 27 o achosion rhyddhau wedi'u cynllunio - cafodd 17 eu rhyddhau i gartref y teulu, cafodd wyth eu rhyddhau i lety â chymorth gyda'r awdurdod lleol, a chafodd dau eu gadael heb lety cynaliadwy (aethant i safle cymeradwy a thai dros dro), ac roedd y ddau ohonynt yn 18 oed.

5.13 Roedd NEWTs yn darparu dilyniant o ran cymorth drwy gynnal cyswllt gofal gyda rhai plant ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a oedd wedi'i deilwra i anghenion y plentyn.

5.14 Er bod y rhan fwyaf o’r plant hyn wedi cynllunio cael rhyw fath o addysg neu gyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau, cafodd cynnydd ei danseilio yn sgil cadarnhau’r llety yn hwyr. Nid oedd gan wyth o’r 10 plentyn a oedd wedi gadael heb gynllun ar gyfer addysg gyfeiriad wedi’i gadarnhau ar eu cyfer wythnos cyn eu rhyddhau; roedd hynny’n atal y staff rhag dod o hyd i opsiynau addas.

## Ymyriadau

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn gallu cyrchu ymyriadau sydd wedi’u dylunio i hyrwyddo ailsefydlu llwyddiannus.

5.15 Parhawyd i ddarparu ymyriadau achrededig (‘gwell sgiliau meddwl–gwell sgiliau meddwl ar gyfer pobl ifanc’ (ETS-JETS), ‘Feeling it’, ‘A–Y’ a ‘Bywyd heb drais’; gweler Geirfa) a chafodd 21 eu cwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd nifer yr ymyriadau y gellid eu darparu wedi’i gyfyngu oherwydd gwrthdaro, argaeledd ystafelloedd a diffygion o ran hwyluswyr.

### Iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau

5.16 Roedd cynllunio ar gyfer rhyddhau, a oedd yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl a seicogymdeithasol, wedi hen ennill ei blwyf. Roedd pob plentyn yn cael ei weld gan y nyrs gofal sylfaenol cyn cael ei ryddhau ac yn cael unrhyw feddyginiaethau angenrheidiol i fynd adref gyda nhw, yn ogystal â chrynodeb o ofal gan feddyg teulu.

# Adran 6 Gwybodaeth am STIEF y Parc

Sylwch, cafodd llawer o'r wybodaeth ganlynol ei darparu gan y Sefydliad Troseddwyr Ifanc adeg yr arolygiad.

**Categori'r sefydliad**
Sefydliad troseddwyr ifanc yw STIEF y Parc ar gyfer pobl ifanc rhwng 15 ac 18 oed, ac mae wedi'i leoli yng ngharchar llawer mwy y Parc ger Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru. Mae'n cael ei redeg gan y contractwr preifat G4S, ac mae'n gallu dal hyd at 46 o bobl ifanc ar ddwy uned ar wahân.

**Hanes cryno**
Agorodd yr uned blant yn CEF a STI y Parc ym mis Mawrth 2002 fel cyfleuster 28 cell ar gyfer plant rhwng 15 ac 18 oed ar remand. Ym mis Hydref 2004, ehangodd i gartrefu 36 o blant rhwng 15 ac 18 oed, ar remand ac wedi'u dedfrydu, gydag estyniad pellach ym mis Chwefror 2007 i 64 o blant. Cafodd hyn wedyn ei leihau ym mis Rhagfyr 2022 i ddal 46 o blant. I ddechrau, roedd yr uned yn gartref i blant o Gymru, ond ers mis Mawrth 2013 mae dalgylch y llys wedi cynnwys De-orllewin Lloegr hefyd.

**Poblogaeth**
- Y boblogaeth gyfartalog eleni hyd yma oedd 29.
- Derbyniwyd 73 o blant newydd eleni (pump y mis ar gyfartaledd).
- Ar gyfartaledd, roedd 17% o blant yn wladolion tramor.
- Ar gyfartaledd, roedd 48% o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Ar gyfartaledd, roedd 31% o blant ifanc yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

**Disgrifiad byr o unedau preswyl**
Mae'r uned blant yn CEF a STI y Parc yn cynnwys dwy uned breswyl fechan ac uned gymorth unigol, sy'n darparu 46 gwely ar gyfer plant sy'n cael eu dedfrydu a'u remandio rhwng 15 ac 18 oed. Mae'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn gyfleuster ar wahân ym mhrif CEF y Parc, ac mae'r holl unedau a chyfleusterau wedi'u gwahanu ac i'w defnyddio gan blant yn unig.
E1: yn dal 22 o blant
G1: yn dal 24 o blant
Uned gymorth unigol: yn dal dau blentyn pan fydd yn cael ei defnyddio.

**Statws y carchar (cyhoeddus neu breifat)**
Preifat: G4S

**Darparwyr allweddol**
- Darparwr iechyd corfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Darparwr iechyd meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Darparwr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau: Dyfodol
- Darparwr iechyd deintyddol: Time for Teeth
- Darparwr Dysgu a Sgiliau: Novus Gower
- Contractwr hebrwng: GeoAmey

**Enw'r Cyfarwyddwr a dyddiad dechrau yn ei swydd**

Will Styles, Mehefin 2024

**Newid o ran cyfarwyddwyr ers yr arolygiad diwethaf**
Heather Whitehead, Awst 2023 – Mehefin 2024


**Dyddiad yr arolygiad diwethaf**
9-19 ydref 2023

# Adran 6 Cynnydd o ran yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf

## Argymhellion yr arolygiad diwethaf

Yn ein harolygiad diwethaf yn 2023, nodwyd un ar ddeg pryder allweddol, gyda chwech ohonynt yn bryderon â blaenoriaeth.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod sylw wedi cael ei roi i wyth o'n pryderon, a bod sylw rhannol wedi cael ei roi i un ohonynt, ac nad edrychwyd ar y ddau arall.




Dyma restr o'r holl bryderon a godwyd, a drefnwyd o dan y pedwar prawf ar gyfer carchar iach.

## Diogelwch

### Pryderon â blaenoriaeth

Roedd rhai plant wedi cael eu gwahanu am ormod o amser ac roedd eu harferion yn agored i gyfyngiadau gormodol. Roedd nifer y plant a oedd wedi'u gwahanu o dan Reol 49 (gweler Geirfa) y Sefydliad Troseddwyr Ifanc wedi cynyddu ac roedd eu goruchwyliaeth wedi dirywio.
**Cyflawnwyd**

## Gofal

### Pryderon â blaenoriaeth

Nid oedd hyrwyddo cydraddoldeb wedi cael ei flaenoriaethu a chafodd ei danseilio gan ddiffyg staffio cyson i gydlynu a gyrru'r gwaith yn ei flaen. Roedd hyn yn llesteirio dealltwriaeth arweinwyr o ganfyddiadau plant yn y maes hwn.

**Cyflawnwyd**

**Pryderon allweddol**

Roedd y gwaith o oruchwylio gofal iechyd yn annigonol ac nid oedd yn darparu digon o graffu ar y gwasanaeth i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol i bob plentyn.
**Heb ei gyflawni**

Nid oedd holl anghenion iechyd y plant wedi cael eu hasesu ac nid oedd ganddynt fynediad digonol at ystod briodol o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd.
**Heb ei gyflawni**

Roedd cofnodion clinigol y plant o ansawdd gwael ac nid oeddent yn rhoi darlun cywir na chynhwysfawr o'r asesiad, y gofal a'r driniaeth.
**Cyflawnwyd**

## Gweithgarwch pwrpasol

**Pryderon â blaenoriaeth**

Roedd anghysondebau o ran lleoli staff addysg, a diffygion o ran ansawdd yr addysgu a'r asesu. Nid oedd digon o oruchwyliaeth o ran datblygiad dysgwyr; roedd llawer wedi ymddieithrio ac wedi gwneud cynnydd araf at achrediadau, ac roedd cyrhaeddiad mewn ychydig o bynciau yn isel.
**Cyflawnwyd**

Roedd trefniadau partneriaeth a rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn araf i gefnogi'r broses o drosglwyddo darparwyr addysg yn llwyddiannus. Dim ond yn ddiweddar y gweithredwyd trefniadau partneriaeth i gefnogi gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg neu i wella'r cwricwlwm.
**Cyflawnwyd**

Nid oedd strategaeth ddarllen. Nid oedd y llyfrgell yn gweithio gydag addysg i hyrwyddo llythrennedd ac ni allai plant a oedd eisiau darllen chwilio am lyfr o'u dewis a'i gael.
**Cyflawnwyd**

**Pryderon allweddol**

Nid oedd y cwricwlwm addysg yn ystyried y farchnad lafur nac anghenion dysgwyr yn ddigon da. Nid oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar elfennau galwedigaethol, ac nid oedd gan yr adran addysg fawr o ran yn y gwaith o ddatblygu llwybrau addysg i blant.
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Nid oedd hunan-werthuso dysgu a sgiliau, gan gynnwys y defnydd o ddata, yn ddigon da i nodi meysydd i'w gwella.
**Cyflawnwyd**

## Ailsefydlu

### Pryderon â blaenoriaeth

Roedd rhai asesiadau risg ROTL ac adroddiadau rhannu gwybodaeth MAPPA o ansawdd gwael.
**Cyflawnwyd**

# Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys crynodeb o sut mae carcharorion yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer carchardai plant, y profion yw:

> **Diogelwch**
> Mae plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw yn y ddalfa'n ddiogel.
>
> **Gofal**
> Mae'r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas dynol.
>
> **Gweithgarwch pwrpasol**
> Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.
>
> **Ailsefydlu**
> Mae'r plant yn cael eu helpu'n effeithiol i baratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer plant ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posibl: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF roi sylw iddynt.

> **Mae'r canlyniadau i blant yn dda.**
> Does dim tystiolaeth bod y canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae'r canlyniadau i blant yn eithaf da.**
Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fach o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon mawr. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

**Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.**
Mae tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau plant mewn sawl maes, neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd fwyaf pwysig i'w lles. Mae problemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

**Mae'r canlyniadau i blant yn wael.**
Mae tystiolaeth bod yr arferion cyfredol yn effeithio'n ddifrifol ar ganlyniadau plant. Methir â sicrhau hyd yn oed driniaeth a/neu amodau digonol ar gyfer plant. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at nodi **meysydd sy'n peri pryder.** Mae pryderon allweddol yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol yn y ffordd y mae plant yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen newid ymarfer a/neu adnoddau newydd neu adnoddau wedi'u hailgyfeirio. Pryderon â blaenoriaeth yw'r rhai y mae'r arolygwyr yn credu sy'n fwyaf brys a phwysig ac y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith. Caiff y prif bryderon a'r pryderon â blaenoriaeth eu crynhoi ar ddechrau adroddiadau arolygu ac mae corff yr adroddiad yn cyflwyno'r materion yn fwy manwl.

Rydym hefyd yn darparu enghreifftiau o **arferion cadarnhaol nodedig** yn ein hadroddiadau. Mae'r rhain yn rhestru arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i blant; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon plant a staff; trafodaethau â phlant; trafodaethau â staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi'i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd ac maent yn cynnwys dilyn argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Cynhelir arolygiadau o sefydliadau troseddwyr ifanc yng Nghymru ar y cyd ag Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC). Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif bryderon a'r pryderon â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad, a'n dyfarniadau yn erbyn y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn

erbyn ein disgwyliadau - *Expectations*. *Criteria for assessing the treatment of children and conditions in prisons* (Fersiwn 4, 2018) (ar gael ar ein gwefan yn Expectations – HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)). Mae Adran 7 yn rhestru argymhellion yr arolygiad llawn blaenorol (a'r ymweliad craffu lle bo hynny'n berthnasol), a'n hasesiad sy'n dangos p'un a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o blant a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Adnoddau Pellach). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth yn y canlyniadau.

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn sy'n darparu data o arolygon Arolygiaeth Carchardai EF o blant hefyd yn cynnwys cymariaethau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc tebyg.

| Disgrifiad | Beth mae'n ei olygu |
|---|---|
| Is | mae canran y carchar yn sylweddol is yn ystadegol na'r cymharydd: carchardai sydd â'r un math o swyddogaeth, neu yn yr arolygiad diwethaf |
| Uwch | mae canran y carchar yn sylweddol uwch yn ystadegol na'r cymharydd: carchardai sydd â'r un math o swyddogaeth, neu yn yr arolygiad diwethaf |
| Dim gwahaniaeth | nid yw canran y carchar yn sylweddol wahanol yn ystadegol i'r cymharydd: carchardai sydd â'r un math o swyddogaeth, neu yn yr arolygiad diwethaf |

**Y Tîm Arolygu**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

| | |
|---|---|
| Martin Lomas | Dirprwy Brif Arolygydd |
| Angus Jones | Arweinydd y Tîm |
| John Wharton | Arolygydd |
| Angela Johnson | Arolygydd |
| Christopher Rush | Arolygydd |
| Esra Sari | Arolygydd |
| Dionne Walker | Arolygydd |
| Helen Ranns | Ymchwilydd |
| Alicia Grassom | Ymchwilydd |
| Phoebe Dobson | Ymchwilydd |
| Samantha Rasor | Ymchwilydd |
| Jasjeet Sohal | Ymchwilydd |
| Sarah Goodwin | Prif arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol |
| Rachel Hackling | Arolygydd arweiniol Estyn |
| Steve Bell | Arolygydd Estyn |
| Baljit Gandhi | Arolygydd Estyn |

# Atodiad II Adroddiad Estyn ar weithgareddau addysg, sgiliau a gwaith

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Estyn, sef swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n arolygu'r ddarpariaeth addysg a safonau addysg, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer pobl ifanc, gan weithio o dan gyfarwyddyd cyffredinol Arolygiaeth Carchardai EF. Mae Estyn yn gorff annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond caiff ei ariannu ganddo. Pwrpas Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

| **Maes arolygu 1: Safonau** |
| --- |
| Yn ystod eu gwersi, gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd cadarn ynghyd â datblygu sgiliau a gwybodaeth am y pwnc yn dda. Roedd dysgwyr a oedd wedi'u gwahanu oherwydd gwendidau neu resymau eraill yn gyffredinol yn cael llai o oriau cyswllt addysg ac yn gwneud cynnydd arafach na'u cyfoedion. Roedd eu presenoldeb yn is a'u lefel ymgysylltu yn is.<br><br>Ar draws y ddarpariaeth, roedd dysgwyr yn ymarfer ac yn datblygu eu llythrennedd yn briodol. Roeddent yn sillafu ac yn ysgrifennu yn briodol yn ôl eu gallu ac yn troi at adnoddau fel geiriaduron pan oedd angen.<br><br>Mewn sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau trafod, gwrando a rhesymu, fel dinasyddiaeth, roedd dysgwyr yn ymgysylltu'n feddylgar, yn gwrando ar safbwyntiau pobl eraill yn briodol, ac yn mynegi eu barn yn dda.<br><br>Mewn un rhaglen sydd ar gael sy'n canolbwyntio ar elfennau galwedigaethol, sef y cwrs ar gynnal a chadw'r rheilffordd, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwneud yn dda â thasgau ymarferol, yn defnyddio offer ac yn datblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n berthnasol i elfennau galwedigaethol.<br><br>Yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth, roedd llyfrau darllen sy'n berthnasol i'r pwnc, fel bywgraffiadau pobl o'r byd chwaraeon, yn bresennol a manteisiodd lleiafrif o ddysgwyr ar y cyfle i bori neu fenthyg llyfrau i'w darllen yn ystod y wers neu yn eu hamser eu hunain.<br><br>Llwyddodd dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau ar gyfraddau tebyg neu ychydig yn well nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Cwblhaodd dysgwyr gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel briodol o'u cymharu â'u mannau cychwyn. Llwyddodd dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn eu cymwysterau ar gyfraddau tebyg i ddysgwyr gwyn Prydeinig a llwyddodd dysgwyr ag ADY ar gyfradd uwch na dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr ADY. |

| **Maes arolygu 2: Llesiant ac agweddau at ddysgu** |
| --- |
| Dywedodd bron pob dysgwr eu bod yn teimlo'n ddiogel mewn addysg a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os oedd ganddynt bryderon. Ar y cyfan, roedd dysgwyr yn mynychu'n dda ac roedd lefelau absenoldeb heb awdurdod yn isel.<br><br>Mewn gwersi, roedd perthynas gadarnhaol rhwng y dysgwyr a'r staff. Roedd perthynas waith agos rhwng staff gweithredol ac athrawon, a chyda'i gilydd roeddent yn rhoi cefnogaeth briodol i ddysgwyr reoleiddio eu hemosiynau. Roedd hyn yn cefnogi ymgysylltu â dysgu'n dda.<br><br>Mewn sesiynau addysg yn ystod yr arolygiad hwn, roedd bron pob dysgwr yn barchus â'u cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Roeddent yn cymryd rhan mewn sgyrsiau yn hyderus ac yn briodol. Roedd bron pob dysgwr yn gwerthfawrogi'r dull newydd o gymell ymddygiad ac yn glir o ran sut roedd yn eu cefnogi.<br><br>Ar y cyfan, roedd y dysgwyr yn ymddwyn yn dda yn ystod cyfnodau distrwythur fel amser egwyl. Roeddent yn mwynhau'r cyfle i ryngweithio'n gymdeithasol â staff a'u cyfoedion. Yn y sesiynau a arsylwyd, cyrhaeddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn brydlon, gan ddangos awydd i ymgysylltu â'r dysgu.<br><br>Roedd bron pob dysgwr yn ymgysylltu'n dda â'r rhaglen iechyd a lles ac yn ennill cymwysterau perthnasol a oedd yn cefnogi dewisiadau iach a gweithgarwch corfforol. Drwy sesiynau dinasyddiaeth a chyflogadwyedd, datblygodd dysgwyr sgiliau a gwybodaeth bwysig i gefnogi eu cyflogadwyedd yn y dyfodol.<br><br>Roedd llawer o ddysgwyr mewn gwersi yn ymgysylltu'n dda â chynnwys pynciau gan fod yr athrawon yn llwyddo i gysylltu'r themâu â'u diddordebau. Mewn gwersi, roedd bron pob dysgwr yn ymfalchïo yn y ffordd roedd eu gwaith yn cael ei gyflwyno ac yn awyddus i'w drafod pan ofynnwyd iddynt wneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus wrth weithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn grwpiau bach ac yn gallu llunio ymatebion meddylgar fel y sgiliau sydd eu hangen i oroesi ar ynys anghysbell. |

| Maes arolygu 3: Profiadau dysgu ac addysgu |
|---|
| Datblygodd bron pob athro berthnasoedd parchus, cefnogol a phwrpasol gyda dysgwyr. Roedd hon yn elfen allweddol mewn perthynas ag ymddygiad da ar y cyfan yn y dosbarth. Mae athrawon yn gosod disgwyliadau priodol ar gyfer cyflawniad dysgwyr. Hynny yw, modelau iaith ac ymddygiad da i ddysgwyr.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu sesiynau'n dda ac yn cynnwys amrywiaeth o dasgau, adnoddau a gweithgareddau a oedd yn helpu i gynnal diddordeb a chymhelliant dysgwyr. Roedd y rhan fwyaf yn ystyried dewisiadau ac ymddygiad dysgwyr. Er enghraifft, yn y dosbarth iechyd a lles, roedd dysgwyr yn cylchdroi rhwng gweithgarwch corfforol, cwblhau aseiniad a gwaith ysgrifenedig, ac astudio hunangyfeiriol, fel darllen.<br><br>Darparodd y rhan fwyaf o athrawon adborth defnyddiol i ddysgwyr a oedd yn eu helpu i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Roeddent yn cwestiynu'n dda, er mwyn pennu gwybodaeth, ymgysylltu, ysgogi a gwahaniaethu. Roedd bron pob athro yn mynd o gwmpas y dosbarth yn dda ac yn rhoi cymorth ac adborth un-i-un defnyddiol i ddysgwyr. Roeddent yn defnyddio'r cyfleoedd hyn i wahaniaethu dysgu'n effeithiol.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn annog dysgwyr i ddarllen er pleser a diddordeb, gyda llyfrau ar gael mewn ystafelloedd dosbarth, ar adeiniau preswyl, ac yn y llyfrgell.<br><br>Yn yr ychydig iawn o achosion lle'r oedd yr addysgu'n llai effeithiol, roedd cynnydd y dysgwyr yn araf. Nid oedd y gwersi hyn yn ddigon heriol, nid oeddent yn rhoi cyfarwyddyd clir i ddysgwyr ynghylch yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud, neu nid oedd gan yr athrawon ddigon o hyder i reoli ymddygiad ac ymgysylltiad y dysgwyr.<br><br>Roedd y ddarpariaeth yn cynnig ystod ddefnyddiol o bynciau a oedd yn helpu i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth, cerddoriaeth, celf, astudiaethau busnes, iechyd a lles. Roedd arweinwyr wedi gwella'r cynnig galwedigaethol ers yr arolygiad diwethaf, yn enwedig drwy gyflwyno darpariaeth alwedigaethol cyrsiau byr mewn meysydd fel peirianneg rheilffyrdd neu doi. Roedd y dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn. Roedd gan arweinwyr ddarpariaeth wythnosol wedi'i chynllunio i ehangu opsiynau galwedigaethol i gynnwys rhaglenni gwaith barbwr ac arlwyo, er nad oedd staff yn bresennol ar eu cyfer adeg yr arolygiad. O ganlyniad, roedd gan ddygwyr fynediad at ddarpariaeth alwedigaethol gyfyngedig.<br><br>Roedd yr amserlen yn cynnig 25 awr yr wythnos o amser addysg wedi'i gynllunio i ddysgwyr. Roedd yr amserlen wedi'i strwythuro'n dda ac yn caniatáu egwyl fer rhwng sesiynau, lle gallai'r dysgwyr gymdeithasu neu ymlacio, ac roedd hyn yn cyfrannu at lefelau canolbwyntio da gan ddysgwyr yn y dosbarth ar y cyfan. Roedd dysgwyr a oedd wedi'u gwahanu yn cael amserlen lai, ond yn dal i gael cyswllt dyddiol gwerthfawr gydag athrawon a mynediad at ddeunyddiau dysgu yn eu celloedd.<br><br>Roedd darpariaeth werth chweil a oedd yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu mwy am ddiwylliant, hanes a threftadaeth Cymru. Roedd hyn yn werth ei nodi, o ystyried cyd-destun y darparwr, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r |

dysgwyr yn Saesneg, ond yn dal i fanteisio ar y ddarpariaeth hon. Roedd tiwtor Cymraeg y carchar yn cyflwyno sesiwn hanner diwrnod bob wythnos ac roedd pob dysgwr yn bresennol ar sail rota misol. Ychydig iawn o athrawon a oedd yn ymgorffori'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn eu sesiynau pwnc yn effeithiol iawn. Roedd dysgwyr yn ymarfer ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac roedd dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn elwa ar addysgu eu cyd-ddysgwyr.

**Maes arolygu 4: Gofal, cefnogaeth ac arweiniad**

Datblygodd y staff berthynas waith gynhyrchiol ac effeithiol iawn gyda dysgwyr, ac roedd hynny'n cefnogi amgylchedd dysgu cadarnhaol. Roedd staff wedi sefydlu system rheoli ymddygiad effeithiol, a oedd wedi arwain at well ymddygiad cadarnhaol a mwy o ymgysylltu â dysgu, yn enwedig darllen er pleser.

Defnyddiodd staff addysg wybodaeth o'r broses sefydlu gychwynnol yn dda i ganfod, lle bo modd, anghenion dysgu ychwanegol y dysgwyr a gwybodaeth gefndir berthnasol arall, fel eu profiad blaenorol o ddarllen. Roeddent hefyd wedi cynnal sesiwn sefydlu addysg gynhwysfawr, a oedd yn cynnwys trafodaethau am ddyheadau dysgwyr ac asesiadau cychwynnol o ran sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Roedd cynlluniau dysgu a gwaith unigol yn cefnogi ymgysylltiad a chynnydd dysgwyr yn effeithiol. Roedd staff yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd i sicrhau bod strategaethau'n dal yn berthnasol ac yn cynnal ffocws clir ar alluogi dysgwyr i ennill cymwysterau yn ystod eu dedfryd.

Roedd arweinwyr wedi datblygu dulliau systematig o gasglu a defnyddio gwybodaeth am ddysgwyr, a oedd yn cefnogi'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Dangosodd y staff ddealltwriaeth gadarn o sut i ymateb i anghenion emosiynol a lles dysgwyr, er enghraifft drwy ddefnyddio adnoddau cefnogol fel offer ffidlan i'w helpu i ymgysylltu. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth fanylach y staff o sut i addasu dulliau addysgu i ddiwallu anghenion dysgu penodol wedi datblygu cystal.

Roedd ymyriadau addysg wedi'u targedu yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd mewn meysydd allweddol. Roedd staff yn olrhain cynnydd dysgwyr yn glir drwy'r traciwr cynnydd dysgwyr, a oedd yn rhoi trosolwg o'r cyrsiau a gwblhawyd a'r rhai sydd ar y gweill, ac yn tynnu sylw at gyflawniadau dysgwyr yn effeithiol.

Derbyniodd y dysgwyr gyngor a chyfarwyddyd priodol am y camau nesaf ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roedd rhai enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â darpariaeth alwedigaethol, fel y cwrs toi, lle'r oedd dysgwyr wedi symud ymlaen i gael swydd yn y maes. Roedd trefniadau addas ar waith hefyd i gefnogi plant i symud i leoliadau diogel eraill, gan gynnwys carchardai i ddynion.

Nid oedd y defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL) i gefnogi cynnydd dysgwyr a'u paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau wedi'i ddatblygu'n ddigonol, gydag ychydig iawn o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfle hwn.

| Maes Arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheoli |
|---|
| Roedd arweinwyr yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wedi gweithio'n bwrpasol i gryfhau ansawdd y ddarpariaeth a gwella canlyniadau i ddysgwyr ers yr arolygiad craidd diwethaf. Roeddent wedi gwneud cynnydd sicr yn erbyn yr argymhellion blaenorol.<br><br>Roedd y cydweithio rhwng Novus Gower a G4S wedi gwella, ac roedd y berthynas rhwng staff addysg, gweithredol a gofal iechyd yn fwy effeithiol. Roedd y partneriaethau hyn yn cefnogi'r gwaith o redeg y ddarpariaeth yn dda o ddydd i ddydd, er enghraifft drwy gyfarfodydd partneriaeth addysg rheolaidd lle'r oedd arweinwyr yn monitro cynnydd dysgwyr ac yn mynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Roedd arweinwyr wedi cryfhau eu trefniadau hunanwerthuso. Roeddent wedi cyflwyno prosesau mwy cadarn, gan gynnwys arsylwadau traws-ddarparwyr, a defnyddio arbenigedd o Goleg Gŵyr Abertawe a Novus. O ganlyniad, roedd yr adrodd hunanwerthuso yn ddigon hunanfeirniadol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir.<br><br>Roedd y cynllun datblygu ansawdd cysylltiedig yn fanwl ac yn cyd-fynd yn dda â'r blaenoriaethau a nodwyd. Hefyd, roedd yr arweinwyr yn defnyddio data'n well, gan gynnwys gwell dadansoddi ynghylch cynnydd gwahanol grwpiau o ddysgwyr, megis y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, roedd anawsterau o ran cael gafael ar wybodaeth am gyrchfannau dysgwyr ar ôl cael eu rhyddhau yn cyfyngu ar allu'r arweinwyr i werthuso effaith hirdymor y ddarpariaeth yn llawn.<br><br>Roedd arweinwyr yn ymgysylltu'n ystyrlon â dysgwyr a staff. Roeddent yn defnyddio adborth dysgwyr yn effeithiol i lywio gwelliannau, er enghraifft cynnwys dysgwyr yn y gwaith o recriwtio staff addysgu newydd.<br><br>Roedd arweinwyr hefyd wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhaglen sefydlu fuddiol ar gyfer staff newydd, a oedd yn defnyddio arbenigedd ar draws partneriaid yn effeithiol. Roedd amrywiaeth o ddysgu proffesiynol i wella addysgu a diwallu anghenion unigol y dysgwyr. Roedd y gwelliannau hyn, ochr yn ochr â phrosesau hunanwerthuso a chynllunio cryfach, wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd yr addysgu a chanlyniadau dysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd dysgu proffesiynol i ddatblygu addysgeg i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol penodol dysgwyr wedi'i ddatblygu cystal.<br><br>Yn gyffredinol, roedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr arweinwyr, ac roedd cyfleoedd rheolaidd i gyfathrebu, megis cyfarfodydd tîm, sesiynau gwirio ADY, a sesiynau llais staff.<br><br>Roedd arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gliriach ar gyfer y cwricwlwm a'r ddarpariaeth gyffredinol, ac mewn llawer o achosion roedd y staff yn deall hyn. Roeddent yn defnyddio gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys adborth gan ddysgwyr a gwybodaeth am y farchnad lafur, i lywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff yn deall y cyfeiriad strategol yn gyson.<br><br>Ar ben hynny, er gwaethaf gwelliannau a datblygiadau arfaethedig i'r amgylchedd dysgu, nid oedd y cwricwlwm yn canolbwyntio digon ar lwybrau galwedigaethol, yn rhannol oherwydd heriau staffio ac oedi o ran fetio. Roedd seilwaith TGCh |

gwael neu annibynadwy yn cyfyngu ar gyfleoedd athrawon i ddefnyddio adnoddau electronig ac roedd rhai ystafelloedd dosbarth naill ai'n rhy boeth neu'n rhy oer, ac roedd cyfleoedd yr athrawon i reoli'r amgylchedd yn gyfyngedig.

Dangosodd yr arweinwyr hyblygrwydd priodol o ran eu trefniadau i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o anghenion y dysgwyr – er enghraifft, defnyddio arbenigedd a chymorth o garchar y dynion i gefnogi dysgwyr sy'n gweithio tuag at Safon Uwch neu sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Roedd yr arweinwyr wedi cyflwyno cynlluniau i gefnogi datblygiad ehangach y dysgwyr, gan gynnwys strategaeth ddarllen. Fe'i datblygwyd ar y cyd â staff gweithredol, llyfrgellydd y carchar a'r darllenydd preswyl. Roedd hyn yn dechrau gwella ymgysylltiad o ran darllen.

Mae'r farn grynodol y mae Estyn yn ei dyfarnu mewn perthynas â fframwaith arolygu Estyn yn cyfrannu at ddyfarniadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn erbyn y prawf carchar iach at ddibenion gweithgarwch pwrpasol.

**Barn gyffredinol:**

Y farn gyffredinol wrth arolygu Sefydliad Troseddwyr Ifanc CEF y Parc yw bod y canlyniadau i garcharorion yn dda.

# Atodiad III Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosibl, a dylai'r eirfa fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech chi ddod ar eu traws.

**'A–Y'**
Ymyriad dwysedd isel i blant sydd â chymhelliant cyfyngedig i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio eu dedfryd a/neu wasanaethau ailsefydlu eraill tra byddant yn y ddalfa.

**Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)**
Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

**Dyfodol**
Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau sy'n cynnig cymorth mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol.

**'Feeling it'**
Ymyriad sydd wedi'i gynllunio i helpu plant i nodi a rheoli eu hemosiynau.

**Arweinydd**
Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn yr ystad ieuenctid yn y ddalfa. Byddwn yn cyfeirio ein naratif at lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

**'Bywyd heb drais'**
Ymyriad un-i-un ar gyfer y rhai sydd â'r risg uchaf o ddefnyddio trais.

**Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)**
Y set o drefniadau y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai yn eu defnyddio i weithio gydag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau a berir gan droseddwyr treisgar, rhywiol a therfysgol sy'n byw yn y gymuned, er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

**Nodweddion gwarchodedig**
Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

**Rheol 49 Rheolau Canolfan Gadw Sefydliad Troseddwyr Ifanc**
Awdurdodi plant i gael eu gwahanu oddi wrth y brif boblogaeth.

**Galwadau fideo cymdeithasol diogel**
System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) i alluogi galwadau gyda ffrindiau a theulu. Mae'r system yn mynnu bod

defnyddwyr yn lawrlwytho ap i’w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn y gellir trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lanlwytho ID dilys.

**Pecyn gofal cymdeithasol**
Lefel o ofal personol i fynd i’r afael ag anghenion a nodwyd yn dilyn asesiad o anghenion cymdeithasol a wnaed gan yr awdurdod lleol (h.y. cymorth gydag ymolchi, mynd i’r bath/cawod, mynd i’r toiled, gweithgareddau byw bob dydd ac ati, ond nid gofal meddygol).

**Amser allan o’r gell**
Mae amser allan o’r gell, yn ogystal â ‘gweithgarwch pwrpasol’ ffurfiol, yn cynnwys unrhyw amser y bydd plant allan o’u celloedd er mwyn cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

**Graddfeydd diddyfnu camddefnyddio sylweddau**
Mae graddfeydd mesur alcohol neu sylweddau clinigol yn adnoddau a ddefnyddir i asesu unrhyw glaf sydd wedi defnyddio, neu yr amheuir ei fod yn camddefnyddio, cyffuriau anghyfreithlon neu alcohol. Mae’r graddfeydd yn cyfrifo sgôr a ddefnyddir i lywio triniaeth.

Hawlfraint y Goron 2026

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lawrlwytho yn: [Our reports – HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)]

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai EF
Llawr 3
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

Mae pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.